

Ffydd yng Nghymru

cymru

cynghrair efengylaidd

gyda'n gilydd yn cyhoeddi lesu



Rhagair

Nôl yn 2008, torrwyd tir newydd gan Gweini, Cyngor y Sector Gwirfoddol Cristnogol yng Nghymru, mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, wrth gyhoeddi'r adroddiad, *Ffydd yng Nghymru*. Roedd yr adroddiad yn nodi a chydabod y cyfraniad arwyddocaol a wnaed gan gymunedau ffydd yng Nghymru, gan ddarparu sylfaen ar gyfer cydweithredu pellach rhwng cymunedau ffydd a gwneuthurwyr polisi.

Mae'n dyst i effaith yr adroddiad gwreiddiol ei fod yn dal i gael ei ddyfynnu'n aml heddiw, er gwaethaf ei ddyddiad cyhoeddi. Gyda hyn mewn golwg, roedden ni'n teimlo y byddai'n dda adnewyddu'r adroddiad, gan roi cipolwg mwy cyfredol ar y sefyllfa bresennol.

Fel y cewch weld, mae'r adroddiad sy'n deillio o hyn yn hynod galonogol i gymunedau ffydd, gan ddangos eu cyfraniad pwysig a chadarnhaol parhaus i gymdeithas. Mae hefyd yn cynnwys her ynghylch sut y gellid cefnogi cymunedau ffydd yn well yn y gwaith rhagorol maen nhw'n ei wneud ledled Cymru.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn gymhellant defnyddiol tuag at gydweithio pellach, tra hefyd yn darparu gwybodaeth a fydd yn cynorthwyo cymunedau ffydd yn eu cynllunio a'u darparu gwasanaethau.

Tim Rowlands

Pennaeth y Cyngrhair Efengylaidd
yng Nghymru





Tabl Cynnwys

Crynodeb gweithredol	2
Prif gasgliadau	2
Cyfleoedd am dwf ac argymhellion i wneuthurwyr polisi.	2
Cyflwyniad	3
Methodoloeg	3
Mae adeiladau cymunedau ffydd yn bwysig	4
Mae cymunedau ffydd yn ddarparwyr mentrau cymunedol	7
Mae cymunedau ffydd yn cyfrannu at economi Cymru	10
Cymunedau ffydd a dyfodol Cymru	11
Dyheadau	12
Cyllid	13
Ymgysylltu gwleidyddol	13
Casgliad	15

Cynghrair Efengylaidd Cymru
Ff 020 7520 3830 | E wales@eauk.org | G eauk.org

Y Cynghrair Efengylaidd. Cwmni cyfyngedig trwy warant.
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif123448. Rhif
Cwmni Cofrestredig Lloegr a Chymru 212325, Yr Alban
SC040576. Swyddfa Gofrestredig: 176 Copenhagen Street,
Llundain, N1 0ST

Crynodeb Gweithredol

Prif Gasgliadau

1 Effaith cymdeithasol a chymunedol: Mae grwpiau ffydd yn dal i fod wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn cymunedau lleol. Maen nhw'n darparu cefnogaeth mewn argyfwng, yn lleddfu unigrwydd, yn darparu mannau cynhwysol ac yn cefnogi lles. Yn aml, maen nhw'n cyrraedd y rhai a allai fel arall syrthio rhwng y craciau, gyda 97% o gymunedau ffydd yn cynnig rhyw fath o fenter gweithredu gymdeithasol.

2 Cyfraniad economaidd: Mae cymunedau ffydd yn darparu o leiaf £250 miliwn i economi Cymru bob blwyddyn trwy staff, gwirfoddolwyr a darparu safleoedd. Mae hyn yn gynydd o 49% (ar ôl ystyried chwyddiant) ers 2008, as heb gynnwys gwerth twristiaeth, a allai ychwanegu gwerth sylweddol pellach.

3 Calon y gymuned: Yn aml, mae addoldai yn ganolfannau cymunedol, gan wasanaethu fel calon cymunedau lleol. Mae llawer hefyd yn lleoedd o dreftadaeth arwyddocaol a rhaid eu cynnal i sicrhau cysylltiadau cymunedol â'r gorffennol.

4 Iechyd meddwl a gwytnwch: Mae ffydd wedi'i chysylltu'n gryf â lles meddwl gwell a gwytnwch cynyddol ym mywyd beunyddiol. Mae cymunedau ffydd yn darparu gofal bugeiliol ystyrlon, gweithgareddau grŵp ac amgylcheddau o berthyn – yn arbennig o ddefnyddiol ar adeg pan fo dros £1 biliwn yn cael ei wario bob blwyddyn ar iechyd meddwl gan y GIG yng Nghymru.

5 Ymgysylltu gwleidyddol: Mae arweinwyr cymunedau ffydd yn ymwneud â'r broses wleidyddol. Maen nhw'n ymwneud ag ymgynghoriadau, cyfarfodydd etholiadol a mwy.

Cyfleoedd am dwf ac argymhellion i wneuthurwyr polisi

1 Gwella mynediad at gyllid: Mae angen gwell mynediad at gyllid ar gymunedau ffydd a fydd yn eu galluogi i atgyweirio a chynnal adeiladau. Mae llawer o'r rhain yn gwasanaethu eu cymunedau y tu hwnt i'w rôl fel mannau addoli.

2 Cefnogaeth i brosiectau yn y dyfodol: Mae cymunedau ffydd yn dangos yn weithredol eu bod yn barod i gefnogi eu cymunedau lleol ymhellach. Mae angen cefnogaeth yn ariannol ac yn ddeddfwriaethol i gael yr effaith fwyaf.

3 Partner dros lesiant: Mae angen cydweithrediad cryfach rhwng grwpiau ffydd a gwasanaethau cyhoeddus i wneud y mwyaf o ofal cymunedol. Gall sefydliadau ffydd fod, ac maen nhw eisoes yn, gynghreiriaid allweddol mewn llesiant cyhoeddus a chydlyniant cymdeithasol.

4 Cryfhau undod a chydweithio: Mae angen anogaeth a chefnogaeth barhaus ar weithgareddau rhyng-ffydd ac eciwmenaidd ledled Cymru. Mae cydweithio ar draws gwahanol draddodiadau yn hyrwyddo ymddiriedaeth, parch at ei gilydd a datblygiadau lleol cynaliadwy.

5 Annog cyfranogiad gwleidyddol: Gellir gwneud gwaith pellach i wella'r berthynas rhwng cymunedau ffydd a llunwyr polisi er mwyn gwella bywydau eu cymunedau lleol.



Cyflwyniad

Mae cymunedau ffydd yng Nghymru yn rhan bwysig o wead hanesyddol, cymdeithasol ac economaidd Cymru. Ym mhob cymuned maen nhw'n darparu lleoedd nid yn unig i addoli, ond hefyd lleoedd sy'n mynd i'r afael â thlodi, yn mynd i'r afael ag unigrwydd ac yn cryfhau cydlyniant cymdeithasol.

Ers adroddiad gwreiddiol *Ffydd yng Nghymru*, a gyhoeddwyd yn 2008, bu diffyg gwybodaeth ystadegol ynghylch y rôl y mae cymunedau ffydd Cymru yn ei chwarae yn ein cymunedau lleol, yn enwedig o ran y prosiectau allgymorth cymdeithasol a gynhelir, y manteision economaidd a'r ymgysylltiad gwleidyddol sydd gan y cymunedau hyn.

Mae'r adroddiad hwn yn bwriadu pontio'r bwlch hwnnw a datblygu dealltwriaeth gyfredol o'r rôl y mae cymunedau ffydd yn ei chwarae yng nghymdeithas Cymru, gan ddangos y cyfraniad enfawr y maen nhw'n ei wneud, a'r effaith hyd yn oed yn fwy y gallen nhw'i gael yn y dyfodol.

Methodoleg

Trwy gydol yr astudiaeth hon, diffinnir cymuned ffydd fel grŵp o bobl sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac sy'n cael eu cynrychioli drwy Fforwm Cymunedau Ffydd Cymru a grŵp trawsbleidiol y Senedd ar ffydd.

Yn gynnar yn 2025, ymatebodd 201 o gymunedau ffydd i arolwg dros gyfnod o wyth wythnos. Lledaenwyd yr arolwg drwy rwydweithiau o gymunedau ffydd a sefydliadau rhyng-ffydd yn ogystal â thrwy grŵp trawsbleidiol y Senedd ar ffydd i flaenoriaethu'r ymateb ehangaf posibl. Roedd yr holiadur ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg.


Cafodd y data o'r ymatebion ei goladu a'i lanhau i alluogi dadansoddi. Roedd y broses hon yn cynnwys strwythuro'r data mewn camau i wella cysondeb a lleihau'r risg o wallau technegol neu ddynol.

Mae'r data yn yr adroddiad hwn wedi'i symleiddio i alluogi cyfeirio a dealltwriaeth yn rhwydd. Er enghraifft, wrth ddarlunio mentrau cymunedol, mae gweithgareddau tebyg wedi'u grwpio gyda'i gilydd.

Mae adeiladau cymunedau ffydd yn bwysig

Ar draws Cymru, mae cymunedau ffydd yn darparu cyfalaf cymdeithasol hanfodol i alluogi cymunedau i ffynnu. Yn y manau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn aml yn ei chael hi'n anodd eu cyrraedd, mae cymunedau ffydd yn bresennol. Cafodd llawer o'r gwasanaethau lles a weithredir drwy'r wladwriaeth eu harloesi gan arloeswyr Cristnogol ac entrepreneuriaid cymdeithasol. Nid yn yr eglwysi a'r mosgiau ym mhob cymuned yn unig y mae treftadaeth ffydd yng Nghymru ond yng ngwaith a darpariaeth gymdeithasol pobl ffydd. Dydy'r etifeddiaeth hon ddim wedi'i hanghofio ac adeiladir arni mewn trefi, pentrefi a dinasoedd bob dydd.

Trwy'r arolwg, *Ffydd yng Nghymru*, roedden ni eisiau asesu pa fesurau ymarferol roedd cymunedau ffydd yn eu darparu i gefnogi cydlyniant cymunedol a sicrhau nad oes neb yn cael ei eithrio. Gofynnwyd i ymatebwyr am yr adeiladau maen nhw'n eu defnyddio, a sut maen nhw'n cael eu defnyddio. Mae'r ymatebion yn dangos sut mae adeiladau ffisegol cymunedau ffydd eu hunain yn alluogwyr cydlyniant cymunedol.



Darparu mynediad i'r anabl

Un agwedd ar ddarparu cyfleusterau gan grwpiau ffydd yng Nghymru sy'n amlwg ar unwaith o'r data yw eu bod yn blaenoriaethu sicrhau bod cyfleusterau'n hygyrch i bawb, yn enwedig y rhai ag anableddau. Mae'r darpariaethau hyn yn aml yn amrywio o fynediad i gadeiriau olwyn i systemau dolen-T i'r rhai sy'n defnyddio cymhorthion clyw. Mae bron i naw o bob deg cyfleuster yn darparu mynediad i bobl anabl, sy'n adlewyrchu cydnabyddiaeth gref bod cynhwysiant yn hanfodol i gydlyniant. Mae cyfleusterau o'r fath yn sicrhau nad oes neb yn cael ei eithrio rhag cymryd rhan mewn bywyd ffydd na gweithgareddau cymunedol yn seiliedig ar gyfyngiadau corfforol. Mae'r ddarpariaeth hon yn awgrymu bod cyfleusterau o'r fath mewn sefyllfa dda i wasanaethu fel canolfannau cymunedol go iawn.

Darparu gofod

Un o fuddion allweddol pendant cymunedau ffydd sy'n cyfrannu at gydlyniant cymunedol ydy darparu lle ffisegol ar gyfer cyfarfodydd a gweithgareddau. Mae mwy na hanner y cymunedau ffydd a arolygwyd yn darparu lle am ddim a mwy o le i'w rentu ar gyfer gweithgareddau cymunedol – gyda rhai yn darparu'r ddau. Mae hwn yn ffactor pwysig wrth feithrin cydlyniant cymunedol; mae'r data'n awgrymu bod rhannu cyfleusterau'n ymarferol yn ffordd hanfodol y mae cymunedau ffydd yn gwasanaethu eu hardaloedd lleol.

Lle mae grwpiau ffydd yn rhentu eu lle ar gyfer gweithgareddau cymunedol, mae hyn yn darparu cynhyrchu incwm hanfodol ac yn cefnogi cynaliadwyedd cymunedau ffydd, tra bod darparu lle am ddim yn dangos ymrwymiad i haelioni a chefnogaeth i grwpiau na fydden nhw fel arall â mynediad at le ffisegol. Gall cymunedau lleol hefyd fod yn sicr o ddibynadwyedd y lleoedd a ddarperir gan gymunedau ffydd gan fod dros 77% ohonyn nhw'n berchen yn llawn ar eu hadeiladau, gan ddiogelu cymunedau ffydd rhag newidiadau economaidd fel cynnydd mewn rhent a chaniatáu iddyn nhw wasanaethu eu cymunedau yn fwy cyson.





Croesawu ymwelwyr a thwristiaid

Mae'r adeiladau y mae cymunedau ffydd yn berchen arnyn nhw ac yn eu defnyddio yn aml yn gwasanaethu amrywiaeth o ddibenion. Yn ogystal â chynnal cymunedau addoli a darparu lle ar gyfer gweithgareddau cymunedol, mae llawer yn atyniadau i ymwelwyr a thwristiaid. I bron i hanner y cymunedau ffydd a arolygwyd, roedd hyn yn agwedd allweddol ar eu gwaith. Mae hyn yn tynnu sylw at y rôl y mae cymunedau ffydd yn ei chwarae fel pwyntiau cyswllt diwylliannol a chymdeithasol o fewn cymunedau, sy'n eu galluogi i weithredu fel pontydd rhwng trigolion ac ymwelwyr. Mae'r adeiladau y mae cymunedau ffydd yn preswyllo ynddyn nhw yn aml wedi bod yn ganolfannau diwylliannol ar gyfer trefi a phentrefi am gyfnod sylweddol. Wrth ddadansoddi data arolwg *Ffydd yng Nghymru*, blwyddyn sefydlu gyfartalog y cymunedau ffydd a arolygwyd oedd 1860. Yn aml, mae cymunedau ffydd yn rhan allweddol o hanes eu cymunedau lleol ac yn chwarae rhan flaenllaw wrth gynnal yr hanes hwnnw ar gyfer eu cymuned.

Rhentu i gyrff cyhoeddus

Yn ogystal â darparu lle ar gyfer gweithgareddau cymunedol, mae 40% o gymunedau ffydd yn rhentu lle i gyrff cyhoeddus. Mae hyn yn dangos bod yr ystod o weithgareddau y mae cymunedau ffydd yn helpu i'w galluogi yn cynnwys cymunedau lleol a'r sector cyhoeddus. Felly, mae cymunedau ffydd yn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol wrth gynnal swyddogaethau neu ddigwyddiadau dinesig, ac mae hyn yn cryfhau eu rôl fel asedau cymunedol integredig ac ymgorfforedig.

Canolfannau cymunedol pwrpasol

I bron i draean o gymunedau ffydd (29%), mae eu darpariaeth o ganolfannau cymunedol pwrpasol yn darparu llwybr pwysig ar gyfer gwasanaethu eu cymuned leol. I lawer o gymunedau ffydd eraill, mae eu hadeiladau'n cyflawni swyddogaeth canolfannau cymunedol o'r fath hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi'u cynllunio'n benodol at hynny. Felly mae'n bwysig nad ydy cyrff y sector cyhoeddus yn osgoi defnyddio adeiladau cymunedol ffydd lle maen nhw'n amlswyddogaethol ac yn gwasanaethu grwpiau ffydd yn ogystal â'r gymuned ehangach. Mae hyn yn arbennig o wir am gymunedau gwledig, ynysig lle mae lle adeiladau cyhoeddus yn brin ac yn aml mae cymunedau ffydd yn sefydliad blaenllaw neu'r yr unig a all gynnig mannau pwrpasol y gall y gymuned leol eu defnyddio.

Adeiladau cofrestredig a safleoedd cadwraeth

Dywedodd tua chwarter y cymunedau ffydd (26%) fod eu hadeiladau naill ai wedi'u rhestru neu'n safleoedd cadwraeth. Dyma ffordd arall y mae cymunedau ffydd yn denu ymwelwyr i gymunedau ac yn gwasanaethu fel mannau ymgasglu allweddol ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol. Mae'n amlwg bod heriau i gymunedau ffydd wrth gynnal adeiladau o'r fath, ac mae hyn yn pwysleisio'r angen am lwybrau ariannu hygyrch. Mae hyn hefyd yn tynnu sylw at rôl cymunedau ffydd wrth ddiogelu treftadaeth leol y gymuned y maen nhw'n byw ynddi.





Mae cymunedau ffydd yn ddarparwyr mentrau cymunedol

Fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol, mae'r adeiladau a'r mannau ffisegol sy'n eiddo i gymunedau ffydd ac sy'n cael eu defnyddio ganddyn nhw yn ganolfannau ar gyfer adeiladu a chynnal cydlyniant cymunedol. Fodd bynnag, gweithgaredd cymunedau ffydd ydy estyn allan at gymunedau a darparu gwasanaethau hanfodol sy'n adeiladu ar y sylfaen honno ac yn gwasanaethu pawb yng Nghymru.

Gofynnwyd i gyfranogwyr arolwg *Ffydd yng Nghymru* pa rai o ystod eang o weithgareddau sy'n wynebu'r gymuned yr oedden nhw'n eu cynnal neu'n eu trefnu eu hunain. Mae'r ymatebion i'n harolwg yn dangos yr ystod eang o fentrau a gweithgareddau y mae cymunedau ffydd yn eu darparu, gan gamu i mewn yn aml lle nad ydy gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu, neu lle mae bylchau yn y ddarpariaeth. Oherwydd nifer y mentrau sydd ar gael, cafodd rhai a oedd yn gweithredu o fewn maes tebyg eu grwpio gyda'i gilydd i roi darlun cliriach o'r mentrau a gynhaliwyd. Gellir dod o hyd i'r gweithgareddau sy'n ffurfio'r grwpiau hyn yn yr atodiad.

Mentrau cymunedol presennol



Ffigur 2

Datgelodd ein canfyddiadau cychwynnol fod tua 97% o'r cymunedau ffydd a arolygwyd yn ymwneud â rhyw fath o fenter sy'n wynebu'r gymuned. Mae hyn yn tynnu sylw at werth sylfaenol llawer ffydd o wasanaethu eraill, gan gynnwys y rhai nad ydyn nhw'n rhan o'u cymuned ffydd eu hunain.

Mae perthnasoedd yn bwysig

Trwy gydol yr ymchwil, roedd yn amlwg bod cymunedau ffydd yng Nghymru yn darparu llawer o wasanaethau perthynas sy'n hanfodol i'r ardaloedd lleol y maen nhw'n eu gwasanaethu. Mae'r tri math mwyaf blaenllaw o fenter yn ymwneud â theulu, cefnogaeth gymdeithasol a gweithgareddau cymdeithasol lleol.

Roedd y grwpio teuluol yn cynnwys gwasanaethau pwysig gan gynnwys cymorth priodas, clybiau cyn-ysgol a chymorth teuluoedd yn chwalu. Mae gwasanaethau fel y rhain yn cefnogi teuluoedd lleol mewn amrywiaeth o ffyrdd, fel cwnsela mewn cyfnodau o chwalfa deuluol a gofal plant o ddydd i ddydd a all ganiatáu i rieni ddychwelyd i'r gwaith yn gynharach. Mae cymorth ychwanegol yn y categori hwn yn cynnwys clybiau ieuentid a digwyddiadau arbennig eraill i bobl ifanc, y mae bron i 60% a 68% o gymunedau ffydd yn eu rhedeg yn y drefn honno. Yn aml, mae'r gweithgareddau hyn yn ffurf effeithiol iawn o ofal plant tymor byr i rieni sydd ag oriau gwaith hirach. Maen nhw hefyd yn darparu rhyngweithio rheolaidd i blant a phobl ifanc â chyfoedion o'u hoedran a'u cyfnod eu hunain mewn amgylchedd diogel, hamddenol a chymdeithasol, gan annog cyfeillgarwch a chydlyniant cymdeithasol pellach y tu allan i leoliad addysgol safonol.

Roedd y categori cymorth cymdeithasol yn cynnwys gweithgareddau fel grwpiau dynion a menywod ac ymweliadau cartref rheolaidd. Yn aml, mae'r gweithgareddau hyn yn darparu rhyngweithio cymdeithasol a bondio rheolaidd i gyfranogwyr yn ogystal â chyfle i gefnogi'r rhai sydd ag amrywiaeth o broblemau iechyd meddwl cyn y bydden nhw angen cymorth arbenigol. Fel arall, gall darparwyr gweithgareddau gyfeirio'r rhai sydd ag anghenion o'r fath at y lle gorau y gallan nhw gael y cymorth sydd arnyn nhw ei angen.

Y drydedd set fwyaf o weithgareddau ydy'r gweithgareddau cymdeithasol fel caffis, bariau cinio a choffi. Gall y mathau hyn o weithgareddau fod yn gyfle pwysig i ffrindiau a theulu gyfarfod yn rheolaidd, sy'n caniatáu i adeiladau cymunedau ffydd fod yn ganolog i fywyd cymuned leol.



Gwasanaethu'r rhai hynny mewn angen

Mae cymunedau ffydd hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth wasanaethu'r rhai mewn angen. Mae dros 50% o'r cymunedau ffydd a arolygwyd yn ymwneud â gweithredu banc bwyd. Mae hyn yn dangos bod cyfran sylweddol o fanciau bwyd yng Nghymru yn cael eu rhedeg gan gymunedau ffydd o ystyried bod rhwydwaith banciau bwyd mwyaf y DU, Trussell, yn gweithredu 146¹ o fanciau bwyd yng Nghymru a gall yr arolwg hwn gyfrif am 105 o fanciau bwyd o'r 201 o gymunedau

ffydd a arolygwyd. Ar draws y llawer mwy o gymunedau ffydd na wnaethon ni eu harolygu, mae'n debygol bod llawer mwy o fanciau bwyd a chymunedau ffydd pellach sy'n cefnogi banciau bwyd eraill heb redeg eu rhai eu hunain.

Menter arall y mae llawer o gymunedau ffydd yn ei rhedeg ydy cefnogaeth i'r digartref. Yn ôl Shelter Cymru, roedd bron i 11,000 o bobl ddigartref yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2025, felly mae cymunedau ffydd sy'n cymryd rhan flaenllaw i fynd i'r afael â hyn yn amhrisiadwy. Dywedodd bron i 30% o gymunedau ffydd eu bod yn darparu rhyw fath o gefnogaeth i'r digartref. Mae hyn yn sicrhau bod pobl yn derbyn y gefnogaeth y mae taer angen arnynt yn daer, fel lle cynnes ar gyfer y nos, yn ogystal â gwella diogelwch y cyhoedd oherwydd bod nifer llai o bobl agored i niwed ar y stryd yn y nos.

Mae tua thraean o gymunedau ffydd hefyd yn darparu gweithgareddau cymorth iechyd emosiynol a meddyliol, gyda nifer tebyg yn gweithredu mentrau gwyrdd. Mae hyn yn adlewyrchu ehangder yr ymrwymïadau gan gymunedau ffydd, o'r personol a'r emosiynol i'r byd-eang.


Adroddwyd yn llai aml am rai gweithgareddau (gan 15% o grwpiau neu lai), ac roedd hyn yn cynnwys cymorth ac eiriolaeth i unigolion ar gyfer anabledd (yn enwedig yn ymwneud â chyllid, troseddu neu iechyd). Mae addysg, hyfforddiant a chymorth cyflogaeth hefyd yn feysydd lle gallai grwpiau ffydd ehangu eu gweithgaredd. Mae'n nodedig mai dim ond 1% o'r rhai yn ein harolwg ni sy'n darparu gwersi Cymraeg neu wasanaethau pwrpasol.



1 Briff Tŷ'r Cyffredin ar fanciau bwyd yn y DU. Gellir ei cael hyd iddo yn: researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-8585/CBP-8585.pdf

Mae cymunedau ffydd yn cyfrannu at economi Cymru

Effaith ariannol cymunedau ffydd



Ffigur 3

Mae cymunedau ffydd yn darparu gwerth economaidd anhygoel i Gymru, o ran y gwasanaethau uniongyrchol a ddarperir, fel arfer yn rhad ac am ddim, a'r cyflogaeth a'r gwasanaethau a gynigir ganddyn nhw.

Wrth asesu effaith economaidd cymunedau ffydd, rydyn ni wedi cymryd dull ceidwadol o amcangyfrif y gwerth cyffredinol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo bod triapiau undydd hamdden yn cyfrannu cyfartaledd o £35 i'r economi. Fodd bynnag, yn ein hamcangyfrif ni o'r cyfraniad economaidd, dydyn ni ddim wedi cynnwys hyn gan nad ydy'r lefel honno o wariant yn debygol o fod yn gynrychioliadol o'r hyn y mae ymwelwyr â safleoedd twristiaeth a threftadaeth ffydd yn ei wario.

O'n dadansoddiad, gellir tybio bod twristiaeth ffydd yn cyfrannu at economi Cymru, o bosibl swm sylweddol, a gellir cynnal astudiaeth bellach yn y dyfodol i benderfynu ar hyn.



Yn seiliedig ar ymatebion i arolwg *Ffydd yng Nghymru*, amcangyfrifir bod cymunedau ffydd yn darparu o leiaf £250 miliwn i economi Cymru bob blwyddyn. O'i gymharu â'r astudiaeth gychwynnol yn 2008, mae hyn ddwywaith y swm arian parod, a thua 49% yn fwy wrth ystyried chwyddiant. Mae'n bosibl iawn bod hyn yn gysylltiedig â mwy o bwysau ar gyllid llywodraeth leol, gan arwain at gymunedau ffydd yn ceisio llenwi'r bwlch ar gyfer eu hardal.

Cyflogaeth

Mae cymunedau ffydd Cymru yn darparu gwerth sylweddol i'r economi leol drwy gyflogi aelodau staff. Gall hyn gynnwys gweinidogion, gweinyddwyr a gweithwyr cymunedol lleol. O argraffiad 2025 oyrarolwg *Ffydd yng Nghymru*, canfuwyd bod tua £79.2 miliwn (mwy na chyfanswm y gyllideb a neilltuwyd i'r economi, ynni a chynllunio yng nghyllideb Cymru 2025–26²) yn cael ei wario'n flynyddol ar gyflogau. Mae'r gwerth hwn yn cyfrif am yr oriau a weithiwyd mewn prosiectau a mentrau cymunedol lleol ac mae'n debygol o fod yn danamcangyfrif oherwydd yr amser ychwanegol a dreulir yn cynllunio a gweinyddu mentrau o'r fath.

2 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2025-26. I'w gael yn: [llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2025-2026](https://www.cymru/cyllideb-derfynol-2025-2026)

Gwirfoddoli

Yng Nghymru, mae cymunedau ffydd yn darparu gweithlu gwirfoddol sylweddol i redeg a chefnogi mentrau cymunedol lleol gan gynnwys grwpiau chwarae lleol a banciau bwyd. Gan dybio bod y gwirfoddolwyr hyn yn cael eu talu ar y cyflog byw cenedlaethol o £12.60 yr awr, byddai'n costio tua £115.1 miliwn y flwyddyn i'w cyflogi. Dyma arian a fyddai fel arall yn cael ei wario gan lywodraeth leol, elusennau a sefydliadau eraill i sicrhau bod yr un gwasanaeth yn cael ei gyflawni. Mae hyn o gymorth mawr i'r cymunedau lleol y mae'r gwirfoddolwyr hyn yn eu gwasanaethu gan eu bod yn caniatáu i wasanaethau a mentrau redeg yn gyson am gost llawer is nag a fyddai fel arall. Oni bai am y gwirfoddolwyr hyn, byddai'n rhaid pontio'r bwlch ariannu, yn fwyaf tebygol gan lywodraethau lleol sy'n dod o dan bwysau ariannol cynyddol, a allai arwain at ganlyniadau gwaeth i drigolion o ran ansawdd a chysondeb y mentrau hyn.

Defnydd o ofod cymunedol

Mae llawer o gymunedau ffydd yn cynnig lle yn eu hadeiladau yn rhad ac am ddim neu am gost isel. Yn seiliedig ar gyfradd llogi gyfartalog fesul awr o £20.07³, rydyn ni wedi cyfrifo bod y lle am ddim a gynnigir yn cyfateb i fwy na £17.6 miliwn bob blwyddyn.

Darperir £38.6 miliwn pellach trwy ddarparu lle a rentir i'w ddefnyddio gan y gymuned am gyfradd rhad neu ostyngedig. Gall hyn ganiatáu i sefydliadau cymunedol ddod at ei gilydd ar gyfradd llawer amlach nag a fyddai fel arall yn bosibl trwy ddarparu lle dibynadwy, fforddiadwy sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r incwm rhent hwn hefyd yn cefnogi gwaith cymunedau ffydd gan ei fod yn darparu incwm amrywiol iddyn nhw y tu hwnt i roddion mewnol a chyllid cyhoeddus.

Cyfanswm y cyfraniad economaidd

Mae cyfanswm y cyfraniad economaidd i economi Cymru, a amcangyfrifir yn £250 miliwn, yn sylweddol uwch na chyllideb cyfiawnder cymdeithasol llywodraeth Cymru o £159 miliwn. Mae hyn yn tynnu sylw at y gwaith gwerthfawr ac arwyddocaol y mae cymunedau ffydd yn ei wneud i wasanaethu eu cymunedau lleol.


3 Wedi'i gyfrifo fel y rhent cyfartalog a godir gan gymunedau ffydd ar gyfer defnyddwyr allanol fel yr adroddwyd yn yr arolwg

Cymunedau ffydd a dyfodol Cymru

Mae'n amlwg o'r ymatebion i'r arolwg *Ffydd yng Nghymru* fod cymunedau ffydd yn rhan hanfodol o fywyd yng Nghymru ac yn darparu ystod eang o gefnogaeth a darpariaeth. Mae hyn yn galluogi pobl i ddianc rhag tlodi, dod o hyd i swyddi, adeiladu cymuned a chryfhau cymdogaethau. Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg bod lle sylweddol i fwy. Yn yr adran olaf hon, rydyn ni'n ystyried yn gyntaf ddyheadau cymunedau ffydd, ac yna sut y gallai cyllid ac ymgysylltiad gwleidyddol gwell gynnyddu cyfraniad cymunedau ffydd.

Dyheadau

Mentrau cymunedol dyheadol



Ffigur 4



Er bod cymunedau ffydd yn darparu llawer o wasanaethau i'w cymunedau lleol, amlygodd arolwg *Ffydd yng Nghymru* fod mwy o hyd y maen nhw'n teimlo y gellir ei wneud. Roedd gan oddeutu 77% o gymunedau ffydd awydd i gychwyn mwy o brosiectau i gefnogi eu cymuned leol. Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i gyfranogwyr pa fentrau cymunedol yr hoffen nhw eu cychwyn yn fuan. Gan fod cymunedau ffydd yn sefydliadau llai, sy'n canolbwyntio'n lleol, gall y dadansoddiad hwn roi cipolwg ar anghenion presennol cymunedau Cymru ac mae ganddo'r potensial i lywio llunwyr polisi ar feysydd polisi i'w datblygu. Fel y gwelir yn ffigur 4, mae'r grŵp o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd wedi mynd o'r 6ed safle ar y mentrau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd (ffigur 2) i'r ail ar y rhestr ddyheadau o fentrau. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys gweithgareddau fel cefnogi'r rhai â salwch hirdymor, salwch meddwl a dibyniaethau. Gall llawer o'r mentrau hyn helpu i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd presennol mewn cymunedau lleol gan y gallan nhw ddod yn fan galw cyntaf i unigolion sy'n ceisio cymorth mewn sefyllfaoedd heriol. Gallai hyn helpu i leihau'r straen ar adnoddau'r GIG, yn enwedig sefydliadau gofal sylfaenol, a all gael eu llethu'n hawdd. Gallai cefnogaeth i'r mentrau hyn arwain at lawer o gymunedau ledled Cymru yn cael mynediad hawdd at ofal cychwynnol o ansawdd uchel a redir am gyfran o'r gost o'i gymharu â mentrau a redir gan y wladwriaeth oherwydd yr oriau gwirfoddol a'r arian ychwanegol a ddarperir gan gymunedau ffydd.


Cyllid

Er bod cyllid mewnol o fewn cymunedau ffydd i gychwyn a pharhau â phrosiectau lleol yn hanfodol, mae arolwg *Ffydd yng Nghymru* wedi dangos bod cyllid ychwanegol wedi cael ei geisio'n rheolaidd ledled Cymru. Mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi dod o amrywiaeth o leoliadau, o grantiau llywodraeth Cymru a lleol i gyllid y Loteri. Mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi cael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd, o sefydlu mentrau lleol i atgyweirio adeiladau. Er bod ymatebwyr wedi mynegi drwy gydol yr arolwg fod y ffynonellau cyllid hyn yn aml yn bwysig ac yn caniatáu i fentrau lleol gychwyn, roedden nhw'n aml yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at y grantiau hyn. Ymhlith y rhesymau a grybwyllwyd dros yr anhawster roedd cymhlethdod a natur yr amser a gymerodd y broses ymgeisio. Soniodd amryw o ymatebwyr am orfod cyflogi awduron grantiau i lenwi'r ceisiadau'n gywir ac yn amserol. Teimlai arweinwyr ffydd hefyd, er gwaethaf gofyn am gyllid ar gyfer mentrau cymunedol yn gyfan gwbl, fod ffrithiant gan gyllidwyr oherwydd bod y sefydliad yn gofyn iddo fod yn seiliedig ar ffydd. Adroddodd arweinwyr ffydd hefyd, os byddai eu cais am gyllid yn cael ei dderbyn, weithiau nad oedden nhw'n derbyn y swm llawn a ofynnwyd amdano, a allai arwain at fylchau cyllido mawr y byddai'n rhaid i gymunedau ffydd eu pontio â'u hadnoddau eu hunain - sydd yn aml yn gyfyngedig.



Ymgysylltu gwleidyddol

Ymgysylltu gwleidyddol



Ffigur 5

O'r ymchwil a gynhaliwyd gan arolwg *Ffydd yng Nghymru*, mae cyfran sylweddol o gymunedau ffydd yn ymgysylltu mewn rhyw ffordd â'r broses wleidyddol. Adroddodd dros un rhan o bump o gymunedau ffydd eu bod wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau llywodraeth gan ganiatáu i bobl ffydd leisio eu barn ar ddeddfwriaeth bwysig fel y Cynllun Drafft ar Hawliau Pobl Anabl a'r strategaeth genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hyn bron ddwywaith cyfartaledd y DU o 13%⁴. Mae dros chwarter o gymunedau ffydd hefyd yn nodi bod eu haelodau wedi mynychu cyfarfod etholiadol, gan ganiatáu rhyngweithio uniongyrchol â chynrychiolwyr lleol a chenedlaethol presennol a darpar gynrychiolwyr. Er gwaethaf yr ymgysylltiad gwleidyddol presennol â chymunedau ffydd, dangosodd arolwg *Ffydd yng Nghymru* hefyd y byddai tua 39% o arweinwyr ffydd yn hoffi mwy o ymgysylltiad â'r broses wleidyddol. Gallai hyn ddod ar ffurf ymweliadau â'r cymunedau ffydd hyn gan gynrychiolwyr lleol i ddeall eu hanghenion unigryw, cyfarfod ag arweinwyr ffydd lleol neu fynychu gwasanaethau sy'n seiliedig ar ffydd.

Yn ogystal â darparu ar gyfer eu cymunedau lleol, mae dros 79% o gymunedau ffydd yn anfon cymorth tramor ar gyfer datblygiad rhyngwladol ac mewn cyfnodau o angen rhyngwladol mawr fel trychinebau naturiol. Bydd y rhodd ychwanegol hon dramor yn helpu Cymru i gael ei gweld yn rhyngwladol fel cenedl sy'n chwarae ei rhan ar y llwyfan byd-eang, yn enwedig mewn cyfnodau o angen mawr.

4 Adroddiad Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2023. I'w gael yn: ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/trustinggovernmentuk/2023#:~:text=5.-,Political%20engagement,on%20issues%20of%20national%20importance

Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dealltwriaeth ystadegol o'r effaith hanesyddol, gymdeithasol ac economaidd sydd gan gymunedau ffydd ledled Cymru. Mae'n dangos bod cymunedau ffydd yn cyfrannu tua £250 miliwn bob blwyddyn i economi Cymru trwy oriau gwirfoddol, staff cyflogedig a mannau cyfarfod am ddim ac am gyfradd is na gwerth y farchnad.

Mae'r ystod eang o fentrau cymunedol yn tynnu sylw at sut mae cymunedau ffydd yn diwallu anghenion eu hardaloedd lleol. Mae'r adroddiad hwn hefyd wedi dangos parodrwydd cymunedau ffydd i ddatblygu a dechrau mwy o fentrau sy'n wynebu'r gymuned ac wedi dangos bwlch ariannu posibl a allai, pe bai'n cael ei bontio, ddatgloi cydlyniant cymunedol gwell, canlyniadau tlodi gwell a chanlyniadau iechyd gwell, yn feddyliol ac yn gorfforol. Mae'r astudiaeth hon hefyd wedi tynnu sylw at beryglon posibl cyllid cyhoeddus, yn amrywio o rwystrau i fynediad i geisiadau sy'n cymryd llawer o amser, gan ddangos bod yn rhaid gwneud mwy i wella hygyrchedd y cronfeydd hyn i gymunedau ffydd. Yn olaf, mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at sut mae cymunedau ffydd yn ymgysylltu'n wleidyddol. Mae arolwg *Ffydd yng Nghymru* yn dangos bod cymunedau ffydd yn ymgysylltu'n weithredol â'r broses wleidyddol, boed trwy gymryd rhan mewn ymgynghoriadau cyhoeddus neu fynychu hustyngau etholiad.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg pwysig ar gyfraniad cymunedau ffydd, pam mae angen gwaith pellach i ddeall eu heffaith yn well, a sut y gall y sector cyhoeddus eu cefnogi orau. Mae cymunedau ffydd yn chwarae rhan hollbwysig yn ein trefi a'n pentrefi lleol ac ar draws ein cenedl. Bydd gwell cefnogaeth gan y llywodraeth ac ymgysylltu â chymdeithas sifil ehangach yn cryfhau hyn ymhellach ac, ar y cyd, yn helpu i wella bywyd yng Nghymru i bawb.

